**Cofnodion Cyfarfod Pwyllgor Ymgynghori Defnyddwyr Harbwr ABERAERON a gynhaliwyd trwy gynhadledd fideo ddydd Iau, 20 Hydref 2022**

**Cynghorwyr Sir Ceredigion:** Keith Henson (Cadeirydd)**,** Elizabeth Evans a Gethin Davies

**Swyddogion:** Gerwyn Jones, Owen Morgan, Katy Spain, Nia Jones a Dana Jones

**Defnyddwyr / Rhanddeiliaid yr Harbwr:** Adrian Davies, Tim Davies, Patricia Lewis a Rhys Evans

(5.30pm – 6.25pm)

1. **Ymddiheuriadau**
Ymddiheurodd Mr David Nicholson a Mr Stephen Webb am eu hanallu i fynychu'r cyfarfod.

2. **Cofnodion y Cyfarfod a gynhaliwyd ar 12 Mawrth 2020**
Cytunwyd cadarnhau Cofnodion Cyfarfod y Pwyllgor a gynhaliwyd ar 12 Mawrth 2020 fel rhai cywir.

**Materion sy'n Codi**
Eitem 4- Dywedodd Mr Owen Morgan, Rheolwr yr Harbwr nad oedd dim cynlluniau ar fin digwydd i newid y trefniadau ar gyfer rheoli Harbwr Aberaeron. Pe bai'r sefyllfa hon yn newid byddai rhanddeiliaid yn cael eu hysbysu yn unol â hynny.

3 **Y Diweddaraf am Wasanaethau'r Harbwr**
Rhoddodd Rheolwr yr Harbwr ddiweddariad o ran gwasanaethau i'r aelodau fel y'i rhoddwyd yn y rhifyn diweddar o Harbwr Diogel 3 ac amlygwyd y canlynol mewn perthynas â Harbwr Aberaeron:-

- Polisi Rheoli Harbwr Ceredigion – cytunwyd y byddai copi o'r polisi yn cael ei ddosbarthu i'r holl Aelodau gyda'r cofnodion
- Cynlluniau Rheoli Gwastraff Porthladd
- Cynllun Amddiffyn Arfordir Aberaeron
- Bendigedig – Her Hwylio Fyd-eang
- Carthu
- Llithrfeydd
- Iechyd a Diogelwch – Cyfrifoldeb Pawb
- Glanio
- Adborth

Nodwyd y byddai adolygiad o Bolisi Rheoli'r Harbwr yn cael ei gynnal ac y byddai proses ymgynghori gyda rhanddeiliaid yn rhan o hynny cyn i'r Polisi fod yn destun craffu/cymeradwyaeth wleidyddol.

Diolchodd yr aelodau i Reolwr yr Harbwr am y diweddariad.

4 **Materion a Godwyd gan Ddefnyddwyr yr Harbwr**

Codwyd y cwestiynau canlynol gan Mr David Nicholson a Mr Stephen Webb:-

| Cwestiwn | Ateb |
|---|---|
| Mr Stephen Webb<br><br>Casglu ffioedd angori Harbwr Aberaeron:<br><br>Er bod fy nghais fy hun a fy nhaliad fy hun o ffioedd angori wedi mynd drwodd heb ddim anawsterau, bu llawer o achosion eleni lle mae ffioedd yn dal heb eu casglu er ein bod ar ddiwedd y tymor ac yn paratoi ar gyfer codi'r cychod o'r harbwr.<br><br>Ymddengys mai'r prif reswm yw nad yw perchennog pob cwch wedi cael yr anfoneb berthnasol ac mae achosion lle mae perchnogion y cychod hyn wedi cael gofynion terfynol gyda bygythiad o achos llys posibl os na cheir taliad erbyn dyddiad penodol. | Mr Owen Morgan, Rheolwr yr Harbwr<br><br>Roedd archwiliad mewnol o Gyfrif yr Harbwr 2021/22 wedi'i lunio a chafwyd adborth cadarnhaol o ran y protocolau a'r systemau sydd ar waith.<br><br>Cyn belled â bod y ffurflenni cais am angorfa yn cael eu dychwelyd wedi'u cwblhau'n llawn ac mewn modd amserol, ni ddylai dim problemau godi. Mae er budd yr holl randdeiliaid yr ymdrinnir â'r broses hon mor effeithlon a di-dor â phosibl ac yn unol â phrotocolau corfforaethol y Cyngor. |
| Ffioedd lansio Harbwr Aberaeron:<br><br>Ymddengys nad oes system yn ei lle ar gyfer casglu ffioedd lansio.<br><br>Yn amlwg mae'r gamreolaeth a'r aneffeithlonrwydd a ddangosir wrth gasglu'r ffioedd uchod yn lleihau refeniw'r harbwr yn fawr a'r hyn sy'n peri pryder yw y gallai hyn arwain at gynnydd mewn ffioedd angori i wneud iawn am y methiannau hyn. | Roedd aelodau Tîm yr Harbwr yn bresennol chwe diwrnod yr wythnos yn yr harbwr am y rhan fwyaf o'r haf. Roedd hyn yn gyson â lefel hanesyddol presenoldeb Tîm yr Harbyrau yn Aberaeron.<br><br>Mae'n rhaid i'r gwasanaeth gydbwyso'r gost o ddarparu swyddog ar y safle â'r ffioedd y gellid eu casglu o ystyried mai dim ond £18.50 yw'r ffi lansio. Yn hanesyddol mae nifer y lansiadau diwrnod wedi bod yn weddol ar y gorau. |
| Yswiriant:<br><br>Nid oes gwiriad a oes gan berchnogion cychod sicrwydd yswiriant digonol ai peidio a gallai hyn roi perchnogion cychod eraill mewn perygl. Mae cais am | Cyfrifoldeb perchennog y cwch yw bod â sicrwydd yswiriant digonol a phriodol bob amser. Nid oes ffordd ymarferol ystyrlon o wirio cydymffurfiaeth â hyn ac ni fyddai'n ymarferol gwirio yswiriant pawb cyn pob achlysur y byddent yn defnyddio |

| | |
|---|---|
| angorfa ond yn ei gwneud yn ofynnol i berchennog cwch ddeall ei fod angen y sicrwydd perthnasol ac nid oes system mewn lle i wirio bod hwn wedi ei gwblhau'n foddhaol gan berchennog pob cwch.<br><br>Pam nad yw'r Harbwr Feistr bellach yn gyfrifol am sicrhau bod gan berchennog pob cwch sy'n defnyddio'r harbwr yswiriant digonol, siawns na fyddai cais am gopi o'r sicrwydd yswiriant yn ffordd syml o sicrhau cydymffurfiaeth? | eu cychod. |
| Cynnal a chadw Harbwr Aberaeron:<br><br>Mae rhai mannau lle mae iechyd a diogelwch yn broblem oherwydd diffyg gwiriadau rheolaidd ar y cyfleusterau o amgylch yr harbwr, llithrfa beryglus o lithrig oherwydd algâu gwyrdd, ysgolion wal yr harbwr yn cael eu cyrydu ac mae marciwr yr ochr chwith yn dal ar goll o'r llithrfa.<br><br>Mae’r llithrfa bellach wedi’i chlirio yn dilyn cwynion ar ôl i berchennog cwch gael ei anafu wrth lithro ar yr wyneb peryglus, fodd bynnag nid yw’r problemau diogelwch eraill a grybwyllwyd wedi cael sylw.<br><br>Pam nad oes system yn ei lle i sicrhau fel mater o drefn bod cyfleusterau'r harbwr yn cydymffurfio â'r holl ofynion a rheoliadau iechyd a diogelwch? | Wedi’i darparu eisoes yn niweddariad yr harbwr fel y nodir yn Harbwr Diogel 3. Mae'r gwasanaeth yn cymryd materion iechyd a diogelwch o ddifri ac yn eu hystyried yn unol â hynny.<br><br>Gall algâu ar y llithrfa fod yn broblem pan fydd yn cronni ar adegau penodol o'r flwyddyn. Ni allwn ddefnyddio'r sylwedd a ddefnyddiwyd o’r blaen i gael gwared â’r algâu oherwydd ei effaith amgylcheddol ond byddwn yn parhau i wneud ymdrechion rhesymol i liniaru'r mater.<br><br>Fel y nodir, cyfrifoldeb pawb yw iechyd a diogelwch. Mae gan harbyrau risgiau cynhenid ac mae angen i bobl gymryd gofal a sylw dyladwy wrth ymweld â nhw/defnyddio nhw. Mewn amgylcheddau o'r fath nid yw'n bosibl dileu neu liniaru pob risg. |
| Trwydded craen:<br><br>Mae rhoi trwydded ar gyfer defnyddio craen ar gyfer codi cychod i mewn ac allan o'r harbwr yn rhwystredig o gyfyngol heb ddim hyblygrwydd amlwg i gymryd i ystyriaeth canslo oherwydd tywydd anrhagweladwy. Y sefyllfa ar hyn | Rhoddir sylw i hyn pan fydd cychod yn cael eu codi i'r harbwr y flwyddyn nesaf a bydd asesiad risg yn cael ei gwblhau yn unol â hynny.<br><br>Cyhyd â bod dogfennau wedi'u cwblhau'n ddigonol ac wedi’u cyflwyno'n ddigon buan ni ddylai hyn fod yn broblem |

| | |
|---|---|
| o bryd yw os na ellir gweithredu'r craen oherwydd y tywydd ar y diwrnod a nodir, yna mae'n rhaid adnewyddu'r drwydded sydd wedyn yn cymryd peth amser i'w chaniatáu.<br><br>Onid yw'n bosibl cael trefniant trwyddedu mwy hyblyg lle gellir ystyried natur anrhagweladwy'r tywydd? | Gellir cyflwyno ceisiadau beth amser ymlaen llaw gyda dyddiadau wedi'u diwygio, os oes angen ac yn amodol ar gymeradwyaeth, i adlewyrchu'r tywydd neu ffactorau eraill sy'n dylanwadu. |
| David Nicholson<br><br>Hoffwn gyflwyno fy ymddiheuriadau am beidio â chymryd rhan yn y cyfarfod uchod ar 20/10/22. Hoffwn i'r datganiad canlynol gael ei ddarllen i'r cyfarfod os gwelwch yn dda.<br><br>"Rwyf wedi mynychu Cyfarfodydd Ymgynghori Defnyddwyr yr Harbwr ers blynyddoedd lawer. Byddaf yn rhaghysbysu eitemau ar yr agenda yn rheolaidd ac yn helpu gyda'r cofnodion a gyhoeddir ar ôl y cyfarfodydd. Mae holl gyfyngiadau Covid wedi dod i ben. Os yw Cyngor Sir Ceredigion yn dymuno trefnu cyfarfod ar-lein, pam na threfnwyd dim cyfarfodydd fel hyn yn ystod y blynyddoedd Covid? Dim ond i Ddefnyddwyr yr Harbwr sydd â'r dechnoleg gywir a'r gallu i'w defnyddio y mae cyfarfod ar-lein ar gael. Mae hyn yn annemocrataidd. Yr hyn rydym yn gofyn amdano yw cyfarfod yn y ffordd arferol cyn-Covid gyda llawer mwy na 45 munud wedi'i neilltuo iddo o ystyried yr amser ers ein cyfarfod diwethaf a nifer y materion ar hyn o bryd." | Dim ond un o nifer o ffyrdd y gall defnyddwyr yr harbwr ymgysylltu â'r Cyngor yw'r Cyfarfodydd Ymgynghori Defnyddwyr yr Harbwr. Mae'r rhan fwyaf o faterion, gan gynnwys materion dydd i ddydd, yn gallu ac yn cael eu codi'n fwyaf priodol gyda staff sy'n gweithio yn swyddfeydd yr harbwr priodol pan fyddant yn codi. Gall Defnyddwyr yr Harbwr hefyd ymgysylltu drwy Clic, rhyngwyneb cwsmeriaid y Cyngor dros y ffôn neu'n ysgrifenedig. Mae cyfarfodydd a gynhelir yn y modd hwn yn fwy effeithlon o ran yr amser teithio a'r costau a osgoir. |
| Mae'r system a'r weinyddiaeth ar gyfer casglu ffioedd angori yn parhau i fod yn gwbl anaddas i'r diben.  Mae eleni wedi bod yn waeth nag erioed. | Roedd archwiliad mewnol o Gyfrif yr Harbwr 2021/22 wedi'i lunio a chafwyd adborth cadarnhaol o ran y protocolau a'r systemau sydd ar waith.<br><br>Cyn belled â bod y ffurflenni cais am |

| | |
|---|---|
| | angorfa yn cael eu dychwelyd wedi'u cwblhau'n llawn ac mewn modd amserol, ni ddylai dim problemau godi. Mae er budd yr holl randdeiliaid yr ymdrinnir â'r broses hon mor effeithlon a di-dor â phosibl ac yn unol â phrotocolau corfforaethol y Cyngor. |
| Ni chesglir ffi lansio ar gyfer y mwyafrif helaeth o lansiadau trelars. Nid oes system addas mewn lle nac arwyddion i ddangos beth i'w wneud yn absenoldeb Cynorthwyydd yr Harbwr. Mae'r sefyllfa hon hefyd yn golygu y gall cychod heb yswiriant gael eu lansio'n rhydd ac os bydd digwyddiad anffodus mae cychod talwyr ffioedd angori mewn perygl. Mae Cyngor Sir Ceredigion hefyd yn amddifadu eu hunain o incwm sylweddol. | Roedd aelodau Tîm yr Harbwr yn bresennol chwe diwrnod yr wythnos yn yr harbwr am y rhan fwyaf o'r haf. Roedd hyn yn gyson â lefel hanesyddol presenoldeb Tîm yr Harbyrau yn Aberaeron.<br><br>Mae'n rhaid i'r gwasanaeth gydbwyso'r gost o ddarparu swyddog ar y safle â'r ffioedd y gellid eu casglu o ystyried mai dim ond £18.50 yw'r ffi lansio. Yn hanesyddol mae nifer y lansiadau diwrnod wedi bod yn weddol ar y gorau. |
| Mae'r adnoddau a roddir gan Gyngor Sir Ceredigion ar gyfer Rheoli'r Harbwr o ddydd i ddydd yn annigonol. Ni fwriedir i'r datganiad hwn fod yn niweidiol i Gynorthwyydd yr Harbwr sy'n amlwg yn methu bod ym mhobman ar unwaith. | Mae lefel yr adnoddau staffio yn yr harbyrau wedi bod yn weddol gyson dros nifer o flynyddoedd. Nid yw wedi bod yn destun y rhesymoli a brofwyd mewn meysydd gwasanaeth eraill. |
| Deallwn fod Cyngor Sir Ceredigion wedi cael datganiadau o ddiddordeb mewn perthynas â'r Sector Preifat yn Rheoli Harbwr Aberaeron. Beth yw'r statws ar hyn o bryd? | Ymateb wedi'i roi eisoes o dan faterion sy'n codi |

Gofynnodd yr Aelod Lleol a defnyddwyr yr Harbwr am y canlynol hefyd:-

- Templed cynllun yr harbwr – dywedodd Rheolwr yr Harbwr bod y cynllun ar hyn o bryd yn gywir ac yn gyfredol, byddai copi yn cael ei roi yn swyddfa'r Harbwrfeistr. Byddai Rheolwr yr Harbwr yn croesawu unrhyw adborth neu fewnbwn ynglŷn â newidiadau / gwelliant posibl gan ddefnyddwyr yr harbwr y gellid eu hystyried / gweithredu os ystyrir

eu bod yn rhoi budd/gwelliant cyffredinol ar y rheini sydd ar waith ar hyn o bryd.

Bydd Rheolwr yr Harbwr yn sefydlu strwythur o gyfarfodydd tebyg i gymhorthfa ym mhob Harbwr a fydd yn rhoi cyfle parhaus pellach i randdeiliaid ymgysylltu â'r Gwasanaeth ar faterion o'r fath.

5. **Dyddiad ac Amser y Cyfarfod Nesaf**

Roedd cyfarfodydd nesaf Defnyddwyr yr Harbyrau wedi'u trefnu ar gyfer dydd Iau 16 Mawrth 2023. Bydd y cyfarfodydd yn cael eu cynnal yn rhithwir trwy Zoom/Teams am 5:30pm.